

## Bwletin Awdurdod S4C - Hydref 2002

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ar 27 Medi.

### Cylch Gwariant Cyhoeddus

Nodwyd nad oedd yna unrhyw newyddion wedi'i dderbyn parthed cais S4C am arian ychwanegol ond gobeithiwyd clywed y canlyniad oddi wrth y DCMS erbyn diwedd mis Hydref.

### Animeiddio

Cyfeiriwyd at y ffaith y bu'r Fforwm Cartwn a gynhaliwyd yn y Faenol yng Nghaernarfon, yn llwyddiant ysgubol. Llongyfarchwyd pawb yn S4C a fu'n gysylltiedig â'r digwyddiad, yn enwedig Chris Grace, Kathryn Morris a Wyn Innes. Bu Jenny Randerson, Gweinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, yn bresennol ac roedd yn dda i fedru dangos iddi y fath o gyfraniad yr oedd y cyfryngau yn gallu ei wneud i economi ac enw da Cymru

### The Wales Mirror

Cyfeiriwyd at yr erthygl gan Paul Starling yn y Wales Mirror oedd yn gwneud honiadau ynglyn â'r hyn yr oedd swyddogion S4C yn gwybod ynghylch ymddygiad John Owen. Fel canlyniad, roedd S4C wedi gyrru dau lythyr at Olygydd y Wales Mirror ynglyn â'r mater.

### Aelodau'r Awdurdod

- (a) **Janet Lewis-Jones** – Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod y DCMS wedi cytuno i'w chais i gynnig i Janet Lewis-Jones bod ei thymor ar yr Awdurdod yn cael ei ymestyn i ddiwedd y flwyddyn. Roedd y Cadeirydd yn falch i adrodd bod Janet Lewis-Jones wedi cytuno i wasanaethu ar yr Awdurdod tan ddiwedd mis Rhagfyr.
- (b) **Eira Davies** – Llongyfarchwyd Eira Davies ar gael ei phenodi i wasanaethu ar Gomisiwn Richard a fyddai'n ymgymryd â'r gwaith o ystyried pwerau'r Cynulliad.

### Strategaeth

Rhoddyd sylw i bapur gan y Cadeirydd oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r Awdurdod ac yn cynnig rhai sylwadau i'r Tîm Rheoli eu hystyried dros yr wythnosau nesaf. Ystyriwyd y papur yn un buddiol a defnyddiol iawn a derbyniwyd y pwyntiau wedi'u gwneud ynddo. Roedd yr Aelodau eisoes wedi cynnal trafodaethau strategol yn ystod y flwyddyn hon. Yn

dilyn y rhain byddai'r Tîm Rheoli a'r Comisiynwyr nawr yn datblygu'r strategaeth ymhellach ac roedd y papur yn rhoi cyfle pellach i'r Aelodau gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffent i'r Tîm Rheoli gymryd i ystyriaeth.

## **Cyhoeddi Ffigurau Gwyllo**

Trafodwyd y diffygion technegol a phryderon oedd yn parhau ynglyn â chyfansoddiad panel gwyllo BARB.

Gan gydnabod y byddai yna oblygiadau i'r Awdurdod o ran yr hyn a ellid ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf, cytunwyd y dylid derbyn argymhelliad y Tîm Rheoli nad oedd y ffigurau yn ddigon dibynadwy i'w cyhoeddi. Dylid ail-ymweld â'r cwestiwn pan oedd lle i gredu fod y panel yn agosach at adlewyrchu'n gywir y canran o gartrefi cwbl Gymraeg yn y boblogaeth.

## **S4C2 ar ntl**

Atgoffwyd yr Aelodau bod S4C2 wedi bod ar gael ar gebl ers mis Mai eleni. Roedd wedi dod at sylw S4C nad oedd ntl yn dechnegol yn gallu cynnig trac deusain ar hyn o bryd. Y gobaith oedd eu bod yn gallu darparu gwasanaethau amlieithog yn ail neu drydydd chwarter 2003. Roedd felly angen cymryd penderfyniad p'un ai dylid darlledu'r trac heb gyfieithiad, neu'r trac a fyddai'n cynnwys cyfieithiad Saesneg hyd nes bod y trac deusain ar gael.

Cydnabuodd yr Aelodau bod yna egwyddor bwysig o'u blaenau a bod hwn yn benderfyniad anodd a sensitif i'w gymryd. Trafodwyd y mater yn drylwyr ac yn ofalus a'r ddau brif ystyriaeth a bwyswyd a mesurwyd yn eu herbyn oedd sefyllfa S4C fel darlledwr yn y Gymraeg a'i dyletswydd fel darlledwr cyhoeddus i sicrhau bod gweithgareddau'r Cynulliad ar gael i'r gynulleidfa fwyaf eang posib. Cytunwyd y dylid darlledu'r trac fyddai'n cynnwys cyfieithiad Saesneg ar yr amod mai sefyllfa dymor byr oedd hon. Yn ogystal, dylid ysgrifennu at ntl i bwysu arnynt y pwysigrwydd o gynnig gwasanaeth amlieithog fel mater o frys. Os na fyddai ntl wedi llwyddo i gynnig y gwasanaeth erbyn hydref 2003, dylid ailystyried y sefyllfa.

## **Y Mesur Cyfathrebu**

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a wnaeth grynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r cymalau yn y Mesur Cyfathrebu fyddai'n effeithio'n benodol ar S4C. Yn arbennig, nodwyd y sylw yr oedd y Pwyllgor Dethol o dan gadeiryddiaeth David Puttnam wedi rhoi hawl i Weinidogion newid remit unrhyw Sianel gyhoeddus; yr hyn a fwriadwyd parthed cwrdd â chostau OFCOM trwy godi tâl ar ddarlledwyr; a'r hyn oedd mewn golwg o ran y syniad y dylid cyfeirio cwynion at ddarlledwyr yn gyntaf cyn mynd at OFCOM. Esboniwyd hefyd y diweddaraf parthed cais S4C i weld newid yn ei fformiwla ariannu; cais S4C i ehangu ei phwerau masnachol; a'r sefyllfa ynglyn â chodi tâl ar gyfer y defnydd o'r sbectrwm

## **Cydymffurfiaeth**

Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod a gynhaliwyd 13 Medi 2002. Yn benodol, trafodwyd yr isod

(a) *Heliwr* –

- (i) Roedd y Grwp Cydymffurfiaeth wedi tynnu sylw'r Awdurdod at y gyfres hon gan ofyn i'r Aelodau ystyried a oedd amser darlledu'r gyfres, sef 8.30 pm yn ystod cyfnod gwyllo teuluol, yn addas neu beidio. Tynnwyd sylw at dri chlip penodol oedd yn cynnwys golygfeydd treisiol a iaith gref. Roedd yr Aelodau wedi cael cyfle i wyllo'r clipiau hyn o fewn eu cyd-destun yn y rhaglen cyn y cyfarfod hwn o'r Awdurdod.
  - (ii) **Cytunwyd:** Tra na fyddai gan yr Awdurdod unrhyw bryder ynglyn â'r gyfres *Heliwr* pe bai wedi'i darlledu ar ôl 9.00 pm, roedd o'r farn nad oedd yn briodol i'w darlledu am 8.30 pm h.y. cyn y 'watershed'. Dylai swyddogion S4C felly gymryd sylw o'r penderfyniad hwn wrth bennu amseroedd darlledu rhaglenni yn y dyfodol. Dylid cyhoeddi'r dyfarniad yma yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf yn ogystal â Bwletin misol yr Awdurdod.
- (b) Cynadleddau Gwleidyddol 2001/02 – Ystyriodd yr Awdurdod bapur manwl gan yr Uned Fonitro a wnaeth adrodd ar gynadleddau gwleidyddol y pleidiau yn Hydref 2001, 'Gwanwyn-Cymreig 2002' a 'Gwanwyn-Prydeinig' 2002. Ymhlith yr hyn a nodwyd oedd y sylw a gafodd y gwahanol pleidiau yn ystod darllediadau o'r cynadleddau ac ymhlith yr ystod o raglenni a ddarlledwyd, megis *Newyddion*, *Manifffesto*, ac ati. Nodwyd hefyd y cyfraniadau gan unigolion, gan gynnwys arweinwyr y pleidiau, nifer y ACau, ASau, ASEau ac Arglwyddi wnaeth gyfrannu, yn ogystal ag oedran a rhyw y rheiny a gyfrannodd. Wrth ystyried y gwahanol gasgliadau, roedd yr Aelodau'n arbennig o falch i nodi bod y dystiolaeth fanwl yn awgrymu fod y sylw a roddwyd i'r gwahanol bleidiau wedi bod yn deg ac yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol. Diolchwyd i'r Uned Fonitro am ei gwaith trylwyr.

### Cyflwyniad gan y Comisiynydd Rhaglenni Ffeithiol

Cyflwynodd y Comisiynydd Rhaglenni Ffeithiol arolwg o'r comisiynau presennol a hefyd yr hyn gofynnwyd i'r cwmnïau cynhyrchu ganolbwyntio arno yn y rownd gomisiynu i ddod. Yn benodol, cyfeiriodd at yr isod. Roedd ei gyfrifoldebau yn cynnwys:

**Crefydd** – Darlledwyd rhaglenni defosiynol adeg y Nadolig a'r Pasg, ond hefyd roedd rhaglenni dogfen crefyddol yn cael eu cynnig megis *Llwybrau Paul* y llynedd a *Y Ffordd Ymlaen* eleni ac yr oedd y rhain y rhain yn llwyddiannus iawn. Soniwyd bod *Dechrau Canu* *Dechrau Canmol* yn gysur i garfan fawr o bobl, yn enwedig y rheiny nad oeddynt yn mynychu capel neu eglwys; hefyd roedd pobl di-Gymraeg yn ei gwyllo.

**Celfyddydau** – Roedd y *Sioe Gelf*, *Croma* a gwyliau fel yr Eisteddfodau a Gwyl y Faenol yn esiamplau o'r rhaglenni wedi'u comisiynu yn y maes yma. Roedd y *Sioe Gelf* yn arbennig wedi cystadlu'n dda yn erbyn *Coronation Street* ac wedi ennill gwobrau RTS.

**Newyddion a Materion Cyfoes** – Hwn oedd y maes mwyaf sensitif i'w ddarparu, lle'r oedd rhaid ceisio diwallu anghenion ystod eang. Roedd *Manifffesto* yn cynnig cyfleoedd i gynnal cyfweiliadau gwleidyddol swmpus; tra roedd *Pawb a'i Farn* yn wahanol ei natur ac yn rhoi cyfle i drafod materion y dydd gyda chyfle i 'bobl gyffredin' yn y gynulleidfa i fynegi eu barn nhw ar faterion. Yn ogystal, wrth gwrs, yr oedd gwasanaeth newyddion dyddiol yn cael ei gynnig. Darparwyd gwasanaeth da adeg etholiad San Steffan trwy waith timoedd profiadol iawn yn y BBC a HTV, a llwyddwyd i daro cydbwysedd. Fe fu'r darllediadau o'r cynadleddau gwleidyddol hefyd yn ddi-broblem o safbwynt y prif bleidiau.

**Rhaglenni Nodwedd** – Ymhlith y rhain oedd rhaglenni fel *Pacio*, *Garddio*, *Ffermio*, *Byd Pws*, a *Crwydro*. Roedd *Pnawn Da* hefyd yn cael ei darparu ar ddi-gidol. Wrth ystyried y

gystadleuaeth ar sianelau eraill, roedd y rhaglenni hyn hefyd yn denu nifer parchus o wylwyr. O safbwynt *Wedi 6*, roedd y rhaglen hon yn cael gwell ymateb na *Heno* ac yn ymddangos ei bod yn cael presenoldeb cyson pob diwrnod. Roedd *Ffermio* wedi cael cyfnod euraidd yn ystod 2001 fel canlyniad i glwy'r traed a genau. Cafodd y rhaglen hon ei wir werthfawrogi gan ffermwyr wrth iddi gynnig gwasanaeth nad oedd ar gael ar unrhyw un o'r sianelau eraill.

**Dogfennau** – Roedd yna gynulleidfa gyson ar gael ar gyfer y fath yma o raglen. Roedd rhaglenni oedd yn cynnig portread o unigolion (megis, Ifor Emanuel, Cledwyn, Gwenlyn) yn derbyn dilyniant. Roedd personoliaethau cryf fel Dewi Pws hefyd yn gyfrifol am lwyddiant rhaglenni fel *Byd Pws*. Soniwyd er hynny ei bod hi'n anffodus fod holl gyflwynwyr S4C ar gyfer rhaglenni tebyg i hyn yn ddyinion, a bod yna gais wedi mynd allan i'r cwmnïau cynhyrchu i chwilio am fenywod addas.

**Docudrama** – Penderfynwyd i beidio comisiynu rhagor o'r rhain yn y dyfodol. Roeddynt yn llai boblogaidd ar draws sianelau yn gyffredinol, ond hefyd roedd cynhyrchu rhaglenni fel hyn ar gyfer S4C llawer anoddach oherwydd yr angen i gael pobl a chymeriadau oedd oll yn gallu siarad Cymraeg.

**Cyd-gynyrchiadau** – Roedd nifer o'r rhain wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn rhai meysydd, gan gynnwys gwyddoniaeth a thechnoleg, dim ond trwy gyd-gynhyrchu oedd hi'n bosibl i gynhyrchu rhaglen â'r sglein yr oedd y gwylwr yn ei ddisgwyl. Nodwyd ei bod hi'n anodd i ddenu pobl at raglenni unigol, yn enwedig felly pan roeddynt yn cael ei dangos ar adegau anghyfarwydd. Rhoddwyd yr esiampl o'r rhaglen *Tocyn i'r Sêr* oedd yn ymwneud â theithio i'r gofod.

Diolchodd yr Aelodau i'r Comisiynydd am ei gyflwyniad a mynegwyd edmygedd o'i allu i ddelio â'r swmp o waith dan ei ofal. Yn y drafodaeth a ddilynodd, rhoddwyd yn arbennig sylw i'r ddwy raglen *Ar y Stryd* a ddarlledwyd ychydig fisoedd yn ôl. Ystyriwyd y rhain yn rhaglenni arbennig iawn a wnaeth apelio at bobl ifanc oherwydd y pwnc, ond a wnaeth hefyd apelio at ystod eang o bobl. Soniwyd ei bod hi'n fwriad i gynhyrchu un rhaglen ychwanegol o *Ar y Stryd* fyddai'n dilyn i fyny ar fywydau'r rheiny a ymddangosodd yn y rhaglenni.

## Nawdd

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a wnaeth osod allan manylion tri chais am nawdd a chytunwyd â'r hyn a argymhellwyd.

### *Cytunwyd:*

- (a) Black Voluntary Sector Network Wales – Y dylid rhoi nawdd o £1,000 i noddi'r Seremoni Gwobrwyo ar gyfer Amrywioldeb Diwylliannol.
- (b) Oriel Washington – Y dylid rhoi nawdd o £200 i noddi arddangosfa o gymeriadau cwmni Masquerade yn cynnwys sawl cymeriad o raglenni S4C
- (c) Cyngres Astudiaethau Celtaidd Ryngwladol, Aberystwyth 2003 – Y dylid rhoi nawdd o £2,000 i noddi bagiau i'r gynadleddwyr.

## Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.